



Adolygiad Gwella Ansawdd o Goleg Castell-Nedd Port Talbot o dan yr enw masnachu Grŵp o Golegau NPTC

Yr Adroddiad Technegol

Mehefin 2022

Cynnwys

Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd.....	1
Yr adolygiad hwn.....	1
Yr adroddiad hwn.....	1
Y feirniadaeth drosfwaol am Grŵp Colegau NPTC.....	2
1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad.....	2
2 Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd	6
3 Darpariaeth gydweithredol	13

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr [Adolygiad Gwella Ansawdd](#) ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd a dogfennau defnyddiol eraill.¹

Ym mlwyddyn academiaidd 2021-22, roedd cwmpas yr Adolygiadau Gwella Ansawdd yn canolbwyntio ar faterion sicrhau ansawdd, yn unol â'r newidiadau a wnaed gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i'r gofynion am sicrwydd ansawdd allanol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. O ganlyniad, cyhoeddodd QAA adendwm i Lawlyfr yr Adolygiad Gwella Ansawdd sy'n esbonio'r addasiadau i weithrediad y dull adolygu. Yn 2021-22, mae cyfle i ddarparwyr ymgysylltu â QAA ar wahân mewn perthynas â materion gwella ansawdd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr [Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch \(QAA\)](#).²

Yr adolygiad hwn

Dyma Adroddiad Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd a weithredwyd gan QAA yng Ngholeg Castell-Nedd Port Talbot o dan yr enw masnachu Grŵp o Golegau NPTC. Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu ar-lein rhwng 27 a 29 Mehefin 2022.

Gweithredwyd yr adolygiad gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Ms Tessa Counsell
- Dr Osian Rees
- Dr Bradley Woolridge (adolygwr sy'n fyfyrwr).

Cyn yr ymweliadau adolygu, cyflwynodd y darparwr ddogfen hunanwerthuso (y Dadansoddiad Hunanwerthuso), Adroddiad Newidiadau, a Phecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw, sy'n cynnwys ystod o ddeunyddiau am drefniadau'r darparwr i reoli safonau academiaidd ac ansawdd.

Yr adroddiad hwn

Yn yr adroddiad hwn, mae tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn rhoi eu beirniadaeth mewn perthynas â:

- gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Gallwch weld y beirniadaethau ar dudalen 2, ac mae canfyddiadau manwl yr adolygiad yn dilyn y rheiny mewn paragraffau wedi eu rhifo.

Mae Adroddiad Technegol yn nodi barn tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd o dan bob un o benawdau'r adroddiad. Mae Adroddiad Canlyniadau byrrach yn nodi prif ganfyddiadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd i gynulleidfa ehangach. Mae'r [Adroddiad Canlyniadau](#) ar gyfer yr adolygiad hwn ar gael ar wefan QAA.³

Mae Adroddiadau Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd wedi eu bwriadu'n bennaf i'r darparwyr dan sylw, ac i ddarparu sail gwybodaeth ar gyfer cynhyrchu adroddiadau thematig sy'n nodi canfyddiadau ar draws ystod o ddarparwyr.

¹ Rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Gwella Ansawdd:

www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd.

² Rhagor o wybodaeth am QAA: www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni.

³ Yr Adroddiad Canlyniadau:

www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd/Grwp-Colegau-NPTC

Y feirniadaeth drosfwaol am Grŵp Colegau NPTC

Mae Grŵp Colegau NPTC yn **bodloni** gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol.

Mae Grŵp Colegau NPTC yn **bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr drefniadau cadarn i sicrhau safonau academiaidd, i reoli ansawdd academiaidd ac i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad

1.1 Gwybodaeth gryno am y darparwr, megis fframwaith strategol a strwythur cyfundrefnol

1 Mae Grŵp Colegau NPTC (y cyfeirir ato fel 'Grŵp NPTC' o hyn ymlaen) wedi bod yn gweithredu ers Awst 2013, yn dilyn uno Coleg Castell-Nedd Port Talbot a Choleg Powys. Darperir ei ddarpariaeth addysg uwch ar y pum safle canlynol: Coleg Afan, Coleg Bannau Brycheiniog, Academi Chwaraeon Llandarcy, Coleg Castell-nedd a Choleg Y Drenewydd. Mae Grŵp NPTC yn darparu rhaglenni addysg bellach a rhaglenni addysg uwch. Mae ei raglenni addysg uwch yn arwain at amrywiaeth o gymwysterau: Tystysgrifau Addysg Uwch; Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch; Diplomâu Addysg Uwch; Diplomâu Cenedlaethol Uwch; Graddau Sylfaen; Tystysgrifau Proffesiynol mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol; darpariaeth atodol ar gyfer Graddau Baglor gydag anrhydedd; Graddau Baglor gydag anrhydedd, gan gynnwys Prentisiaethau Gradd; a Thystysgrifau Proffesiynol i Raddedigion mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol.

2 Datganiad cenhadaeth Grŵp NPTC yw 'Ysbrydoli Dysgu, Cyfoethogi Bywydau, Cyflawni Llwyddiant', ac mae ei Gynllun Strategol yn ategu'r genhadaeth hon. Yn ogystal, mae gan Grŵp NPTC Strategaeth Addysg Uwch sy'n nodi pedwar amcan strategol. Cefnogir hon gan Gynllun Gweithredu Addysg Uwch ategol sy'n cael ei fonitro gan yr Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd Llywodraethwyr.

3 Arweinir Grŵp NPTC gan Uwch Dîm Rheoli sy'n adrodd i'r Bwrdd Llywodraethwyr. Mae'r Uwch Dîm Rheoli'n cynnwys aelodau mewn swyddi uwch a Phenathiaid Cynorthwyol sy'n gweithio ar draws Grŵp NPTC.

1.2 Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwylir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau

4 Mae oddeutu 550 o fyfyrwyr addysg uwch yn astudio ar amrediad o raglenni a ddarperir naill ai drwy drefniadau etholfreinio neu ddilysu. Mae oddeutu 7% o boblogaeth y myfyrwyr yn fyfyrwyr addysg uwch, ac mae 35% ohonynt yn astudio'n rhan amser.

5 Mae'r myfyrwyr addysg uwch yn astudio mewn naw o'r deuddeg ysgol academiaidd, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn astudio yng Ngholeg Afan ac wedi eu seilio yn yr Ysgol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant.

6 Gall y Grŵp NPTC weld bod y recriwtio i astudiaeth lawn amser wedi bod yn dirywio, a beth yw'r rhesymau. Ymysg y rhesymau hyn mae effaith y pandemig, y gostyngiad demograffig mewn pobl 18 oed yn genedlaethol, a'r cynigion diamod neu gynigion is a roddir gan gystadleuwyr lleol. Nid yw'r cofrestriadau rhan amser wedi eu heffeithio. Mae'r Grŵp NPTC wedi buddsoddi

mewn penodi Pennaeth Cynorthwyol (Recriwtio Myfyrwyr) i ganolbwyntio ar farchnata a recriwtio myfyrwyr ar gyfer rhaglenni addysg uwch.

7 Mae'r ffigurau cadwraeth ar gyfer rhaglenni addysg uwch yn amrywio'n fawr. Cymerwyd camau gweithredu i ymdrin â'r cyfraddau sy'n adael yn gynnar â'r rhaglenni Gofal a ddarperir yng Ngholeg Afan, a'r rhaglen Tystysgrif Addysg Uwch mewn Camddefnyddio Sylweddau. Mae'n ymddangos bod y camau gweithredu hyn yn gweithio'n effeithiol. Mae presenoldeb y myfyrwyr yn cael ei fonitro gyda'r nod o ganfod a chefnogi'r myfyrwyr hynny sydd mewn perygl o adael yn gynnar.

8 Mae'r ffigurau ar gyfer myfyrwyr sydd wedi cael graddau anrhydedd 'da' yn dangos gwelliannau o 67% i 68%, ac mae'r graddau anrhydedd dosbarth cyntaf wedi cynyddu o 31% i 35%. Mae'r data am gyflawniad y myfyrwyr sy'n astudio ar raglenni HNC a HND wedi aros yn gymharol debyg i'r llynedd.

1.3 Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad

9 Sefydlwyd Grŵp Prosiect Adolygiad Gwella Ansawdd i baratoi ar gyfer yr adolygiad. Yn y grŵp roedd amrywiaeth eang o aelodau'r staff sydd â chyfrifoldebau academiaidd a phroffesiynol, yn cynnwys Llysgenhadon Myfyrwyr Addysg Uwch a Swyddog Addysg Uwch Undeb y Myfyrwyr. Darparwyd cymorth gan grŵp darllen beirniadol a rhoddwyd y gymeradwyaeth derfynol i'r ddogfennaeth gan yr Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd Llywodraethwyr.

10 Penderfynodd Grŵp NPTC gynnwys yr Adroddiad Newidiadau yn y Dadansoddiad Hunanwerthuso, er mwyn caniatáu i'r ddogfen hon gofnodi'r datblygiad a wnaed gan Grŵp NPTC ers yr adolygiad diwethaf.

11 Swyddog Addysg Uwch Undeb y Myfyrwyr a'r Llysgenhadon Addysg Uwch, a oedd yn arwain y gwaith paratoi ar gyfer cyflwyniad y myfyrwyr, a wnaeth y penderfyniad i weithio gyda Grŵp NPTC a datblygu Dadansoddiad Hunanwerthuso, oedd yn cyfuno'r dadansoddiad a wnaed gan Grŵp NPTC â chyflwyniad y myfyrwyr, er mwyn dangos y bartneriaeth rhwng Grŵp NPTC a'r myfyrwyr. Casglwyd sylwadau gan y myfyrwyr mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft drwy ddefnyddio holiadur, grwpiau ffocws a'r plattform ar-lein 'Padlet'.

12 Bydd Grŵp NPTC yn gwneud defnydd pellach o'r adborth a roddir gan y myfyrwyr i strwythuro'r themâu ar gyfer eu cynhadledd addysg uwch nesaf.

1.4 Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol

13 Yn yr adolygiad diwethaf gan QAA yn 2016, derbyniodd Grŵp NPTC y beirniadaethau 'yn cyflawni disgwyliadau'r DU' am 'ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr' ac 'ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu'. Derbyniodd y feirniadaeth 'yn gofyn gwelliant i gyflawni disgwyliadau'r DU' mewn perthynas â 'gwella'r cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr', ac yn dilyn llunio ei gynllun gweithredu, llwyddodd i gael y feirniadaeth ddiwygiedig 'yn cyflawni disgwyliadau'r DU' yn 2017. Ers hynny, mae Grŵp NPTC wedi parhau i ddatblygu ei waith mewn perthynas â'r maes o arfer da, y ddau gadarnhad a'r deuddeg argymhelliad.

14 Mae'r arfer da sy'n ymwneud â'r cymorth a roddir i'r myfyrwyr wedi parhau ac mae Grŵp NPTC yn nodi bod penodiadau newydd, megis Swyddog Lles a Hyfforddwr Astudio Addysg Uwch, yn ogystal â'r gefnogaeth ymatebol a ddarparwyd yn ystod y pandemig COVID-19, oll wedi cael effaith gadarnhaol.

15 Mae'r cadarnhadau hynny oedd yn canolbwyntio ar waith i ddatblygu system gwybodaeth dysgwyr i diwtoriaid ac i ddatblygu systemau cynrychiolaeth myfyrwyr, wedi ymwreiddio yng ngwaith Grŵp NPTC erbyn hyn. Mae Grŵp NPTC yn defnyddio system 'OnTrack' bellach i ddarparu'r data perthnasol i'w staff; ac mae'r broses o recriwtio, hyfforddi a phennu disgwyliaidau clir i rôl cynrychiolwyr y myfyrwyr wedi cael eu datblygu.

16 Mae datblygiadau parhaus ar waith mewn ymateb i'r argymhellion ynglŷn â gwella'r cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr. Mewn perthynas â'r argymhelliad cyntaf, sef sefydlu proses i gofnodi'n systematig ymgysylltiad y staff gyda gweithgareddau ysgolheigaidd a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) sy'n benodol i addysg uwch, mae adroddiadau Grŵp NPTC yn nodi bod cofnodion y staff ar y dangosfwrdd adnoddau dynol yn dangos bod DPP yn digwydd ac yr adroddir am weithgareddau DPP y staff yng nghyfarfodydd y Grŵp Rheoli a Gwella Ansawdd Addysg Uwch (Grŵp RhGAAU). Mae'r staff addysg uwch yn cymryd rhan mewn sesiynau DPP pwrpasol, gan gynnwys y rheiny a ddarperir gan bartneriaid dyfarnu. Mewn ymateb i'r ail argymhelliad, sef cymryd camau pellach i sicrhau bod prosesau safoni mewnol y sefydliad yn gweithio'n effeithiol a gwneud prosesau o'r fath yn eglur i arholwyr allanol, rhoddir ystyriaeth i'r prosesau safoni yn rhan o'r sesiynau DPP ac mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn cynnwys sylwadau cadarnhaol am y prosesau safoni mewnol. Mewn perthynas â'r trydydd argymhelliad, sef sicrhau bod holl gostau ychwanegol y cyrsiau'n cael eu datgan yn glir ymhob cyhoeddiad priodol, mae'r ddogfen Ffioedd Myfyrwyr Addysg Uwch yn nodi costau ychwanegol y cyrsiau sy'n cael eu diweddar'u'n flynyddol. Y pedwerydd argymhelliad oedd cryfhau'r mecanweithiau i fonitro a goruchwyllo'n ganolog gywirdeb a phrydlondeb yr holl wybodaeth gyhoeddedig. Gellir gweld mai'r swydd newydd ei chreu i Bennaeth Cynorthwyol (Recriwtio Myfyrwyr) sy'n gyfrifol am gywirdeb yr holl wybodaeth gyhoeddedig. Mae'r amserlenni a'r trefnau cadarnhau wedi eu gwella, ac mae'r prifysgolion partner yn adolygu ac yn cadarnhau llawlyfrau'r rhaglenni'n swyddogol. Y pumed argymhelliad oedd cymryd camau i ddatblygu rhwydweithiau cyfredol er mwyn galluogi cyflogwyr i gyfrannu at gynllunio a chymeradwyo rhaglenni. Mae'r amcanion strategol sydd wedi eu nodi yn y Strategaeth Cwricwlwm ar gyfer 2019-23 yn canolbwyntio ar gydweithio'n agosach â'r cyflogwyr, o'r cam datblygu cyrsiau ymlaen. Mae gan Grŵp NPTC hefyd Strategaeth Ymgysylltu â Chyflogwyr i ddatblygu cydberthnasau â chyflogwyr ymhellach. Argymhellwyd y dylai Grŵp NPTC ddarparu crynodeb cyfunol blynyddol am y cryfderau a'r meysydd i'w gwella a bennwyd o holl adroddiadau'r arholwyr allanol, a chyflwynir crynodeb o adroddiadau arholwyr allanol i'r Grŵp RhGAAU erbyn hyn.

17 Roedd y seithfed argymhelliad yn gofyn bod y sefydliad yn sicrhau bod yr holl gyflogwyr yn derbyn gwybodaeth briodol am gynnwys y cyrsiau a chynnydd y myfyrwyr. Mae ystod o brosesau, gyda dogfennaeth ategol, ar waith i gefnogi'r myfyrwyr sy'n gwneud lleoliadau gwaith a'r cyflogwyr sy'n eu darparu. Roedd yr wythfed argymhelliad yn gofyn bod y sefydliad yn gweithio gyda'r corff dyfarnu i gynnwys elfennau dysgu seiliedig ar waith mewn modiwlau priodol er mwyn cadw at ofynion y Meincnod Cymhwyster Gradd Sylfaen. Mae'r cyrsiau sy'n cynnwys elfennau dysgu seiliedig ar waith yn rhoi ystyriaeth i'r Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru ar y camau datblygu a chymeradwyo. Mewn ymateb i'r argymhelliad i sicrhau bod adroddiadau monitro ac adolygu rhaglenni'r cyrff dyfarnu'n cael eu goruchwyllo'n fwy cynhwysfawr gan Uwch Dîm Rheoli'r sefydliad, sefydlwyd y Grŵp RhGAAU er mwyn sicrhau gwell goruchwyliaeth dros adroddiadau monitro ac adolygu rhaglenni'r cyrff dyfarnu. Mewn ymateb i'r degfed argymhelliad, sef datblygu prosesau ffurfiol i ddethol a hyfforddi'r cynrychiolwyr myfyrwyr a monitro effeithiolrwydd y trefniadau, mae ystod o ddeunyddiau ar gael i'r tiwtoriaid i'w galluogi i hyfforddi cynrychiolwyr etholedig y myfyrwyr. Yr unfed argymhelliad ar ddeg yw gweithio gyda'r cyrff dyfarnu i ystyried sut y gellid dadelfennu adroddiadau arholwyr allanol ar gyfer dyfarniadau a gynigir ar draws nifer o safleoedd darparu i nodi'r partner sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth. Yn ychwanegol at hyn, mae dynodiad y partner sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth mewn adroddiadau arholwyr allanol yn faes y mae Grŵp NPTC yn awyddus i'w ddatblygu ymhellach ac mae'r Rheolwr Addysg Uwch yn rhan o weithgor sy'n ceisio mynd i'r afael â hyn. Roedd yr argymhelliad olaf yn gofyn bod Grŵp NPTC yn datblygu agwedd strategol tuag at welliant ac yn sicrhau bod

mentrau gwella'n cael eu datblygu a'u gweithredu mewn ffordd drefnus drwy'r sefydliad cyfan. Defnyddir adborth a data'r myfyrwyr a'r staff i bennu mentrau gwella, ac yna cytunir ar ddau neu dri o brosiectau drwy wneud adolygiad o'r cynigion a gyflwynir i'r Grŵp RhGAAU i dderbyn cymeradwyaeth.

1.5 Manylion cyfrifoldebau'r darparwr am y ddarpariaeth addysg uwch y mae'n ei darparu ar ran y corff/cyrff dyfarnu graddau y mae'n gweithio mewn partneriaeth ag o/ â nhw

18 Mae Grŵp NPTC yn gweithio gyda phedwar partner dyfarnu graddau: Prifysgol De Cymru, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, a Pearson.

19 Mae Rhestr Wirio o Gyfrifoldebau i bob partner dyfarnu graddau'n nodi beth yw'r cyfrifoldebau sydd gan Grŵp NPTC am yr addysg uwch y mae'n ei darparu.

2 Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd

2.1 Nodweddion allweddol dulliau'r darparwr o reoli ansawdd a'r ffordd y mae'r myfyrwyr yn cyfranogi yn y gwaith o reoli ansawdd y cyfleoedd dysgu

20 Ar sail y dogfennau a ddarparwyd cyn yr ymweliad adolygu a'r wybodaeth a drafodwyd yn ystod yr ymweliad, canfu'r tîm adolygu fod Grŵp NPTC yn rheoli ansawdd yn dda iawn. Rheolir ansawdd i ddechrau drwy brosesau safoni mewnol, sy'n cael eu dilyn yn unol â gofynion y sefydliad dyfamu penodol. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn cynnwys tystiolaeth i ddangos bod y prosesau o samplu gwaith a aseswyd a chyfathrebu wedi eu trefnu'n dda ac yn gweithredu'n effeithlon, a bod hynny'n wir yn ystod cyfnod y pandemig a'i heriau ychwanegol hefyd.

21 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Grŵp NPTC wedi cael ystod o adolygiadau gan, er enghraifft, QAA, Estyn a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Ers yr Adolygiad Gwella Ansawdd blaenorol, cafodd y Tîm Rheoli Addysg Uwch ei ehangu a chafodd y prosesau sicrhau a gwella ansawdd eu canoli o dan y Pennaeth Cynorthwyol (Addysg Uwch). Roedd yr ehangiad yn amlwg yn nifer y staff ar gyfer y ddarpariaeth addysg uwch ac roedd hyn wedi arwain at ddatblygiadau cadarnhaol yn Grŵp NPTC, ac, felly, roedd y tîm adolygu wedi canmol yr ehangiad (gwelwch adran 2.4). Mae'r partneriaethau sydd gan Grŵp NPTC gyda'i bartneriaid cydweithredol yn ychwanegu craffu pellach i'r gwaith o reoli ansawdd yn Grŵp NPTC ac yn helpu i fonitro'r rhaglenni a gynigir i'r myfyrwyr. Yn ogystal, mae aelodau o'r tîm addysg uwch yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gynhelir ar bob lefel yn Grŵp NPTC.

22 Yn y cyfarfodydd yn ystod yr ymweliad adolygu, tynnwyd sylw at yr amrywiaeth o ffynonellau data y mae Grŵp NPTC yn eu defnyddio i reoli ansawdd, sy'n cynnwys: data a gesglir cyn cofrestru ac wrth ymsefydlu myfyrwyr, adroddiadau monitro rhaglenni blynyddol, holiaduron adborth modiwlau, arolygon myfyrwyr, ac adolygiadau staff o fodiwlau. Roedd hi'n amlwg bod y myfyrwyr yn cymryd rhan fawr yn y gwaith o sicrhau ansawdd yn Grŵp NPTC, fel y disgrifiwyd yn yr adrannau o'r Dadansoddiad Hunanwerthuso sy'n cynnwys cyflwyniad y myfyrwyr, ac yn ystod yr ymweliad adolygu. Cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod yn fodlon â'r cyfleoedd i gymryd rhan yn y prosesau hyn ac roeddent yn teimlo bod eu cyfraniadau'n cael eu gwerthfawrogi. Yn ei Gynllun Strategol a'i Strategaeth Cynnwys Myfyrwyr a Staff, mae Grŵp NPTC yn dangos ei ymrwymiad i gynnwys ei fyfyrwyr yn y gwaith o reoli ansawdd y dysgu a'r addysgu. Mae'r myfyrwyr yn cyfranogi yn y gwaith o sicrhau ansawdd drwy gwblhau holiaduron adborth modiwlau, drwy eu cynrychiolaeth ar y Bwrdd, y Grŵp RhGAAU a'r Grŵp Strategaeth Cynnwys Myfyrwyr a Lles Myfyrwyr, ac mae cyfleoedd ar gael iddyn nhw i gymryd rhan mewn digwyddiadau dilysu, ail-ddilysu ac adolygu cyfnodol. Mae system gynrychiolaeth y myfyrwyr a'r datblygiadau mewn rolau sy'n cynrychioli'r myfyrwyr (megis Swyddog Addysg Uwch Undeb y Myfyrwyr a'r Llysgenhadon Myfyrwyr Addysg Uwch) yn dangos y cyfleoedd sydd ar gael i'r myfyrwyr roi adborth am eu profiadau. Roedd cynhadledd addysg uwch 2022 y myfyrwyr yn gyfle i'r tri Llysgennad Myfyrwyr Addysg Uwch arwain sesiynau yn ymwneud ag adborth gan y myfyrwyr am ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, mae'r tîm adolygu'n hyderus bod y myfyrwyr yn teimlo bod llais ganddynt a'u bod yn cyfranogi yn y gwaith o reoli ansawdd yn Grŵp NPTC.

23 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y camau y mae Grŵp NPTC yn eu cymryd i wneud yn siŵr bod ei fyfyrwyr yn cymryd rhan gyflawn mewn prosesau ansawdd yn gwella'r broses sicrhau ansawdd, er enghraifft, drwy eu cyfranogaeth yn y gwaith o ddatblygu strategaethau a rhaglenni newydd, eu cynrychiolaeth ar bwyllgorau perthnasol, a'r ffaith bod amrywiaeth o gyfleoedd ar gael iddynt i roi adborth. Felly, mae'r tîm adolygu'n **canmol** ymrwymiad y sefydliad i ymgysylltu â'i fyfyrwyr a'u sylwadau, gan alluogi i'w fyfyrwyr gyfrannu at ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth.

2.2 Nodweddion allweddol y dulliau o osod, cynnal, adolygu ac asesu safonau academiaidd

24 Dylid pwysleisio bod darpariaeth addysg uwch gyfan Grŵp NPTC yn cael ei ddarparu mewn cydweithrediad â phedwar partner dyfarnu unigol, sy'n golygu bod y gwahanol brosesau yn ymwneud â safonau academiaidd yn gweithredu ar yr un pryd. I adlewyrchu hyn, paratowyd rhestrau gwirio manwl o gyfrifoldebau gan Grŵp NPTC ar gyfer pob un o'i sefydliadau partner, a gweithredwyd nifer o brosesau allweddol yn ymwneud â safonau academiaidd, er enghraifft, trefniadau ar gyfer cymeradwyo rhaglenni a'u monitro'n flynyddol, yn unol â gofynion y partner perthnasol.

25 Ers yr adolygiad blaenorol gan QAA yn 2016, sefydlwyd dull canolog o sicrhau ansawdd ledled Grŵp NPTC. Penodwyd Rheolwr Addysg Uwch sydd â phrofiad eang o sicrhau ansawdd yn y sector addysg uwch, ac sy'n gyfrifol am y rheolaeth weithredol ar y ddarpariaeth addysg uwch yn Grŵp NPTC. Clywodd y tîm adolygu bod hyn wedi galluogi i systemau ac arferion o faes addysg uwch gael eu datblygu. Hefyd, sefydlwyd Arweinwyr Addysg Uwch i wella'r cysylltiadau â'r sefydliadau partner. Mae eu rôl wedi ei hamlinellu yn adran 2.4.

26 Mae Polisi Rheoli a Sicrhau Ansawdd Grŵp NPTC yn esbonio strwythurau sicrhau ansawdd Grŵp NPTC. Ar lefel y sefydliad, mae strwythur pwyllgorau yn ei le fel bod materion sicrhau ansawdd yn cael eu hadrodd i'r Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd Llywodraethwyr, sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am ansawdd a safonau yn Grŵp NPTC. Y prif bwyllgor sydd â'r cyfrifoldeb perthnasol yw'r Grŵp Rheoli a Gwella Ansawdd Addysg Uwch, dan gadeiryddiaeth yr Is-Bennaeth (Gwasanaethau Academiaidd), a ddatblygwyd mewn ymateb i'r adolygiad blaenorol gan QAA. Mae'r Grŵp yn derbyn adroddiadau gan y Grŵp Gweithredu Addysg Uwch a'r Grŵp Cydlynwyr Addysg Uwch. Mae hefyd yn ystyried adroddiadau a gynhyrchir gan yr Ysgolion, yn cynnwys dogfennau hunanwerthuso sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth addysg uwch. Yn ogystal, mae'r Grŵp RhGAAU yn monitro cynlluniau gweithredu mewn ymateb i ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrywyr (ACF), ac mae'n derbyn crynodeb o adroddiadau'r arholwyr allanol. Paratoir Adroddiad Addysg Uwch blynyddol gan y Pennaeth Cynorthwyol (Addysg Uwch), sy'n rhoi manylion y materion perthnasol yn ymwneud ag ansawdd ac sy'n derbyn ystyriaeth gan y Bwrdd Llywodraethwyr.

27 Ar adeg yr adolygiad, roedd Llawlyfr Sicrhau Ansawdd ar gyfer darpariaeth addysg uwch Grŵp NPTC wrthi'n cael ei ddatblygu. Hysbyswyd y tîm adolygu bod rhai o'r prosesau sicrhau a gwella ansawdd sydd ar waith yn Grŵp NPTC wedi eu rhannu rhwng gwahanol ddogfennau, sy'n cael eu storio ar wahanol blatfformau electronig. O'r herwydd, diben y Llawlyfr Sicrhau Ansawdd yw tynnu at ei gilydd yr wybodaeth sy'n bodoli'n barod ar bob agwedd o'r ddarpariaeth addysg uwch gan wneud yr wybodaeth yn fwy hygyrch er mwyn cefnogi'r staff. Roedd y prosiect hwn wedi dechrau cyn y pandemig, ond cafodd ei oedi oherwydd pwysau'r llwyth gwaith a grëwyd gan y pandemig. Clywodd y tîm adolygu y byddai'r gwaith ar y llawlyfr yn parhau dros haf 2022, gyda'r bwriad o orffen y ddogfen yn derfynol erbyn mis Medi 2022. Hysbyswyd y tîm adolygu hefyd y byddai'r llawlyfr yn cael ei adolygu'n flynyddol wedi hynny gan y Grŵp Rheoli a Gwella Ansawdd Addysg Uwch i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol. Felly, mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau** datblygiad y Llawlyfr Sicrhau Ansawdd er mwyn canoli'r polisiau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd mewn ffordd hygyrch.

2.3 Y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol mewn prosesau ansawdd

28 Fel y nodwyd yn adran 2.2, oherwydd natur gydweithredol darpariaeth addysg uwch Grŵp NPTC, mae'r rhaglenni a ddarperir gan Grŵp NPTC yn cael eu cymeradwyo a'u hail-gymeradwyo yn unol â phrosesau'r sefydliadau partner. Yn rhan o'r prosesau hyn, disgwyli'r i dimau'r rhaglenni sicrhau bod eu rhaglenni'n bodloni gofynion y FHEQ, FfCChC, meincnodau pwnc QAA a'r meincnodau perthnasol eraill.

29 Mae Grŵp NPTC wedi mapio ei brosesau sicrhau a gwella ansawdd yn erbyn gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd o ran sicrhau ansawdd mewnol. Ar adeg yr adolygiad, roedd ymarfer mapio ar waith yn erbyn Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU, ac roedd wedi ei gwblhau'n rhannol erbyn adeg yr ymweliad adolygu. Dywedodd yr aelodau o staff y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw yn ystod yr ymweliad adolygu bod hwn yn ymarfer datblygiadol defnyddiol ynddo'i hun ar gyfer gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, ac y byddai o gymorth wrth baratoi ar gyfer adolygiadau ansawdd yn y dyfodol. Yn debyg i'r hyn sy'n digwydd gyda'r Llawlyfr Sicrhau Ansawdd, hysbyswyd y tîm adolygu y byddai'r dogfennau mapio, unwaith y cânt eu cwblhau, yn cael eu diweddarau'n flynyddol i sicrhau ymlyniad parhaus â Chod Ansawdd Addysg Uwch y DU.

30 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod cwblhau'r gwaith o fapio gweithdrefnau Grŵp NPTC yn erbyn Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU yn ymarfer hanfodol, a bod hynny'n wir hefyd am sicrhau bod y mapio'n cael ei adolygu'n barhaus wedi hynny. Felly, mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau**'r camau a gymerir i fapio prosesau ansawdd yn erbyn Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU er mwyn sicrhau bod yr arferion yn cael eu hadolygu a'u monitro'n barhaus i wneud yn siŵr eu bod yn parhau i alinio â'r disgwyliadau ar gyfer y sector.

31 Gwneir defnydd priodol o arholwyr allanol ar gyfer darpariaeth addysg uwch Grŵp NPTC, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliadau partner. Cyflwynir crynodeb o adroddiadau arholwyr allanol yn flynyddol i'r Grŵp RhGAAU, gyda'r nod o ganfod y cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Un argymhelliad yn yr adolygiad blaenorol gan QAA oedd y dylid ystyried sut y gellid dadelfennu adroddiadau arholwyr allanol ar gyfer rhaglenni a ddarperir ar ran y corff dyfamu ar draws nifer o sefydliadau i nodi'r partner sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth. Clywodd y tîm adolygu fod gwelliannau wedi eu gwneud yn y cyswllt hwn, a bod Grŵp NPTC yn parhau i weithio gyda'i sefydliadau partner er mwyn ceisio sicrhau bod adroddiadau'n cyfeirio'n benodol at y ddarpariaeth a ddarperir gan Grŵp NPTC.

2.4 Sylwadau ar y camau a gymerwyd ers yr adolygiad blaenorol a phennu materion sy'n codi o'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw nad ydynt yn cael eu harchwilio fel arall

32 Fel yr amlinellwyd yn adran 2.2, mae Grŵp NPTC wedi datblygu ei broses sicrhau ansawdd addysg uwch ers yr adolygiad blaenorol. Law yn llaw â hyn, mae Grŵp NPTC wedi ehangu ei dîm staff addysg uwch hefyd yn sylweddol. Ar adeg yr adolygiad blaenorol, roedd Pennaeth Cynorthwyol (Addysg Uwch), ynghyd ag un gweinyddwr, a byddai unrhyw gymorth ychwanegol yn dod fel y bo'r angen gan y staff yn Grŵp NPTC. Erbyn hyn, yn ychwanegol at y Pennaeth Cynorthwyol (Addysg Uwch), mae Rheolwr Addysg Uwch; Uwch Swyddog UCAS a Chydlynnydd Ehangu Mynediad; Gweinyddwr Cymorth a Systemau Addysg Uwch; a Gweinyddwr Addysg Uwch. Yn ogystal, penodwyd pedwar aelod o staff academiaidd yn Arweinwyr Addysg Uwch - un ar gyfer pob un o'r sefydliadau partner. Rôl yr Arweinydd Addysg Uwch yw gweithio gyda'r staff rheoli, y sefydliadau partner a'r Cydlynwyr Addysg Uwch er mwyn sicrhau bod darpariaeth addysg uwch Grŵp NPTC yn cael ei rheoli'n effeithiol. Dyma rai o'r gweithgareddau a wneir gan yr Arweinwyr Addysg Uwch: darparu datblygiad proffesiynol a chefnogaeth i'w cydweithwyr, cynnal cyfarfodydd gweithredol yn rheolaidd, cymryd rhan mewn prosesau sicrhau ansawdd, rhannu gwybodaeth, a sicrhau bod llinellau cyfathrebu'n effeithiol.

33 Yn ystod yr ymweliad adolygu, dywedodd y staff wrth y tîm arolygu fod y datblygiadau hyn wedi gwella gallu Grŵp NPTC yn sylweddol i weithio'n effeithiol gyda'i sefydliadau partner. Dywedodd y staff yn arbennig eu bod yn teimlo bod cefnogaeth iddyn nhw a'u bod yn rhan o broses gydweithredol gyffredin. Cafwyd sylwadau tebyg gan y tiwtoriaid cyswllt o'r sefydliadau partner y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw yn ystod yr ymweliad adolygu, ac roeddent yn pwysleisio'r ffaith fod y mecanweithiau'n galluogi i gyfarfodydd ddigwydd yn aml a bod y berthynas rhwng Grŵp NPTC a'i sefydliadau partner yn gryf.

34 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y camau pwrpasol y mae Grŵp NPTC yn eu cymryd i gynyddu'r nifer o staff er mwyn cefnogi ei ddarpariaeth addysg uwch yn dangos ymrwymiad i gynyddu ymwreiddiad y ddarpariaeth addysg uwch y mae'n ei darparu ymhellach mewn cydweithrediad â'i sefydliadau partner, gan wella gweithrediad y prosesau sicrhau a gwella ansawdd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr. O ganlyniad, mae'r tîm adolygu'n **canmol** y ffordd y mae'r sefydliad wedi cynyddu maint ei dîm staff addysg uwch i gydnabod natur arbennig y ddarpariaeth addysg uwch a datblygu cymuned addysg uwch er mwyn gwella profiad y myfyrwyr.

35 Canfu'r tîm adolygu fod Grŵp NPTC wedi ymateb yn gyflym i'r pandemig a phwysleisiodd bod y Fframwaith Dysgu Cyfunol wedi cael ei wella i ddod yn ddarpariaeth hybrid neu ddarpariaeth ar-lein yn gyfan gwbl gyda gwell cymorth i'r myfyrwyr. Gwelodd y tîm adolygu lawer o wybodaeth am y defnydd a wneir o dechnolegau digidol i alluogi i'r dysgu a'r addysgu barhau yn ystod y pandemig. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd gan Grŵp NPTC i CCAUC - a oedd yn cynnwys adroddiad diweddar am y sefyllfa COVID-19 (Mai 2021), Darpariaeth y Dysgu (20-21) ac Ansawdd Profiad y Myfyrwyr (Ionawr 2021) - yn rhoi gwybodaeth fanwl a oedd yn cynnwys gwybodaeth am welliant sylweddol yn y defnydd a wneir o'r rhith-amgylcheddau dysgu a dulliau darparu o bell yn ystod y pandemig. Yn ystod yr ymweliad adolygu, clywodd y tîm gadarnhad bod Grŵp NPTC wedi rhoi mesurau ar waith ar unwaith i sicrhau bod dysgu'n parhau, gan gynnwys cynnig cymorth ar-lein i'r staff a'r myfyrwyr, a oedd wedi gofyn buddsoddiad sylweddol yn cynnwys buddsoddi yn y seilwaith. Cytunodd y myfyrwyr hynny y cyfarfu'r tîm â nhw yn ystod yr ymweliad adolygu fod y trosglwyddiad i ddysgu ar-lein wedi digwydd yn ddi-dor, a bod cymorth ar gael yn rhwydd iddynt ar adegau oedd yn addas iddyn nhw. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y nifer fawr o gamau a gymerwyd i sicrhau parhad y dysgu, yr addysgu, y cymorth myfyrwyr a'r cymorth lles yn ystod y pandemig.

36 Clywodd y tîm adolygu fod tlodi digidol yn broblem i rai myfyrwyr yn ystod y cyfnod clo. Pan oedd hynny'n broblem, gallai'r myfyrwyr fynd i mewn yn ddiogel i'r cyfleusterau ar y safle. Yn ogystal, sefydlwyd cynllun benthyg ar gyfer gliwiaduron ac ategion band eang symudol, ac roedd Rheolwr Technoleg Gynorthwyd ar gael i roi cymorth. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol ar gyfer blwyddyn academiaidd 2020-21 yn cadarnhau'r defnydd priodol a wnaed o ddulliau darparu digidol i gynnal yr addysgu, yr asesu a'r cymorth myfyrwyr yn ystod y pandemig COVID-19. Yn ogystal, derbyniodd Grŵp NPTC glod gan Brifysgol De Cymru am ganlyniadau ACF 2021 mewn perthynas â'i raglen Gradd Sylfaen mewn Astudiaethau Plentynod, yn ymwneud â chyflwyniad cyflym y cymorth digidol i'r myfyrwyr yn ystod y pandemig a'r adborth dilynol yn yr ACF.

37 Yn dilyn llacio cyfyngiadau'r pandemig, mae Grŵp NPTC wedi parhau i fuddsoddi yn y seilwaith er mwyn cadw buddion technolegau digidol mewn dulliau dysgu ac addysgu hybrid. Clywodd y tîm adolygu bod Grŵp NPTC yn awr yn datblygu'r defnydd o dechnolegau digidol ymhellach yn dilyn yr ymateb i'r pandemig, a bod y myfyrwyr a'r staff yn cefnogi dull hybrid, lle mae sesiynau addysgu'n cael eu recordio a'u lanlwytho ac y mae cymorth ar gael drwy hyrwyddwyr dysgu digidol, Cydlynedd Dysgu Digidol a chyfle i alw heibio i wella sgiliau digidol.

2.5 Y dull o ddefnyddio data i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau a gwerthuso

38 Rhoddodd yr ymweliad adolygu fwy o fanylion i'r tîm adolygu am wahaniad data addysg uwch, a alluogodd i'r tîm weld ei bod hi'n bosibl defnyddio data addysg uwch yn effeithiol i lywio penderfyniadau a gwerthuso prosesau a dulliau darparu. Esboniodd y staff academiaidd fod y ffordd yr ymdrinnir â data addysg uwch a'r systemau a ddefnyddir wedi eu datblygu ymhellach, a'u bod yn galluogi i'r staff ddadansoddi data'n effeithlon. Yn y Dadansoddiad Hunanwerthuso, tynnwyd sylw at y ffaith bod Grŵp NPTC wedi ei chael hi'n anodd recriwtio staff arbenigol sy'n fedrus mewn systemau gwybodaeth reoli i helpu'r sefydliad i ddadansoddi a gwerthuso data; ond cadarnhawyd bod Grŵp NPTC wedi llenwi'r rhan fwyaf o'r rolau yma erbyn hyn ac mewn sefyllfa well i ddefnyddio data'n effeithiol. Ers yr adolygiad diwethaf gan QAA, mae Grŵp NPTC wedi gwella'r systemau data a'r hyfforddiant cysylltiedig i'r staff i ddefnyddio a datblygu adroddiadau addysg uwch pwrpasol.

39 Rhoddwyd enghreifftiau yn y cyfarfodydd lle'r oedd data a gasglwyd wedi ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau. Mae gan Grŵp NPTC nifer fawr o fecanweithiau casglu data (megis ffurflenni i roi adborth am fodiwlau, canlyniadau'r ACF, arolwg ymsefydlu, adroddiadau rhaglenni blynyddol, a thrwy system gynrychiolaeth y myfyrwyr) sy'n adeiladu digon o dystiolaeth i alluogi i Grŵp NPTC wneud penderfyniadau deallus. Adolygir y data hwn mewn ystod o bwyllgorau a gweithgorau, er enghraifft y Grŵp Rheoli a Gwella Ansawdd Addysg Uwch a'r Grŵp Prosiect Adolygiad Gwella Ansawdd, gan alluogi i'r staff a'r myfyrwyr roi adborth a gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu darpariaeth Grŵp NPTC. Dywedodd y myfyrwyr eu bod yn ddiolchgar am y cyfle i roi adborth i Grŵp NPTC. O ystyried bod darpariaeth addysg uwch Grŵp NPTC yn weddol fach (dim ond 7% o'r nifer gyfan sy'n fyfyrwyr addysg uwch), mae'r data a gesglir yn helaeth ac mae'n galluogi i Grŵp NPTC wneud penderfyniadau deallus. Fodd bynnag, am mai dim ond yn ddiweddar y sefydlwyd y systemau hyn, mae Grŵp NPTC yn cydnabod bod camau pellach y gellir eu cymryd i wella'r broses. Felly, mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau** r datblygiad sy'n digwydd yn y gwaith o gasglu a defnyddio data addysg uwch yn effeithiol i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau a gwerthuso.

2.6 Effeithiolrwydd y defnydd a wneir o'r dulliau sicrhau ansawdd i wella a chyfoethogi'r dysgu a'r addysgu

40 Yn y dogfennau a ddarparwyd cyn yr adolygiad, tynnwyd sylw at ddatblygiadau a wnaed ym meysydd dysgu ac addysgu, ac mae cyflwyniad y myfyrwyr sydd wedi ei gynnwys yn dangos bod y myfyrwyr yn fodlon â'r meysydd hyn. Yn ogystal â'i staff addysgu academiaidd, mae gan Grŵp NPTC dîm amrywiol o staff sy'n cyfrannu at y dysgu a'r addysgu, megis hyfforddwyr astudio, swyddogion lles, tiwtoriaid personol a chynghorwyr llyfrgell. Yn ei gyfarfod gyda'r myfyrwyr, clywodd y tîm adolygu mor werthfawr yw'r holl aelodau hyn o staff ac mor ddefnyddiol yw rhai mentrau penodol, fel y Rhaglen Dysgwr Hyderus, o ran cefnogi'r myfyrwyr i addasu i ddysgu ac addysgu mewn addysg uwch ac o ran ateb anghenion unigol y myfyrwyr (mae rhagor o fanylion i'w gweld yn adran 2.1). O ganlyniad i hynny, mae'r tîm adolygu'n **canmol** ymrwymiad y sefydliad i ddarparu cymorth wedi ei deilwra i'w fyfyrwyr i ateb eu hanghenion academiaidd a bugeiliol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial.

41 Mae Strategaeth Digidol 2019-23 Grŵp NPTC wedi ei chysoni â fframwaith strategol 'Digidol 2030' Llywodraeth Cymru. Mae'n disgrifio nodau ac amcanion strategol ar gyfer gwelliannau digidol yn y dysgu a'r addysgu, yr amgylchedd dysgu digidol a'r adnoddau angenrheidiol.

42 Mae diweddariad mis Hydref 2021 i Gynllun Gweithredu Grŵp NPTC yn nodi bod pob maes o'r Strategaeth Digidol yn gweithredu yn unol ag amcanion y Strategaeth Weithredu. Yn ogystal, mae diweddariad mis Hydref 2021 i'r Cynllun Gweithredu Addysg Uwch yn cynnwys amcan i "integreiddio technolegau newydd a chyfleoedd addysgu arloesol er mwyn ehangu mynediad a galluogi i'r dysgwyr gymryd rhan yn llawn yn eu dysgu". Dyfarnwyd Gwobr Arian y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniadau Myfyrwyr i Grŵp NPTC yn 2017, gan ganmol ei "ddull sefydliadol o ddatblygu adnoddau ffisegol a digidol, a ddefnyddir yn aml gan ei fyfyrwyr i gefnogi a gwella eu dysgu a datblygu eu sgiliau astudio ac ymchwilio". Mae Grŵp NPTC yn cydymffurfio â Safonau Digidol Addysg Llywodraeth Cymru. Mae'r Adroddiadau Gwelliannau Digidol ar gyfer misoedd Tachwedd 2021 a Mawrth 2022 a gyflwynwyd i'r Grŵp Rheoli a Gwella Ansawdd Addysg Uwch yn disgrifio gwelliannau a wnaed yn y dulliau digidol o ddarparu addysg uwch, yn unol â gofynion y sefydliadau addysg uwch sy'n dyfarnu'r graddau.

43 Clywodd y tîm adolygu fod y rhan fwyaf o'r ystafelloedd addysgu addysg uwch yn cynnwys technolegau integredig erbyn hyn i hwyluso patrymau darparu o bell, hybrid a chyfunol, ac mae cyfleuster arbenigol ar gyfer addysgu digidol rhyngweithiol ar gampws Castell-nedd, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â Phrifysgol Abertawe. Eleni, mae Grŵp NPTC wrthi'n datblygu ystafell addysgu addysg uwch bwrpasol gyda'r dechnoleg addysgu ddigidol ddiweddaraf i alluogi i'r staff rannu arferion da a datblygu sgiliau.

44 Mae Prosiect Gwella Digidol ar gyfer Addysg Uwch yn parhau yn y flwyddyn academaidd gyfredol, gyda'r nod o wella'r cyfleoedd i'r staff a'r myfyrwyr addysg uwch wneud y defnydd gorau o'r technolegau digidol sydd ar gael yn Grŵp NPTC, gan hefyd sicrhau bod gofynion ei bartneriaid addysg uwch a Pearson wedi eu hateb mewn perthynas â dysgu ac addysgu hybrid/ar-lein.

45 Mae ffurflen asesiad y broses arsylwi addysgu yn Grŵp NPTC hefyd yn ymwneud â'r defnydd a wneir o dechnolegau digidol. Yn ogystal, mae taenlen ddefnyddiol i ddadansoddi sgiliau'r staff addysg uwch yn nodi ystod o agweddau ar ddefnyddio technolegau digidol ac offer perthnasol, gan gynnwys ceisiadau am ddatblygiad staff. Yn ystod yr ymweliad adolygu, clywodd y tîm fod y broses wedi ei llunio i fod yn gefnogol, a bod cyfleoedd ar gael ar lefelau'r ysgolion a'r sefydliad i gael arsylwad gan gymheiriaid, mentora aelodau newydd o staff, a rhannu arferion da.

46 Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y ffordd y mae technolegau digidol yn cael eu datblygu a'u defnyddio'n effeithiol ar draws Grŵp NPTC, o fewn amgylchedd cefnogol, sy'n hwyluso gwelliant parhaus yn y dysgu a'r addysgu.

47 Dywedodd nifer fawr o'r staff eu bod yn hynod o fodlon gyda'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt i ddatblygu yn eu rolau a pharhau gyda'u datblygiad proffesiynol. Roedd lefelau uchel o gymorth ar gael i helpu'r staff i weithredu'r dechnoleg dysgu ddigidol oedd yn ofynnol. Siaradodd y staff am gyfleoedd i rannu arferion da a buddion sesiynau galw heibio sydd wedi helpu'r staff i ddatblygu eu sgiliau er mwyn defnyddio technolegau digidol. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** ymrwymiad Grŵp NPTC i annog ei holl staff addysg uwch i gyrchu datblygiad proffesiynol mewn perthynas â dysgu, addysgu a chymorth myfyrwyr ar lefel addysg uwch, er budd yr unigolyn a'r corff myfyrwyr.

2.7 Effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd

48 Mae adran 2.2 yn crynhoi'r trefniadau y mae Grŵp NPTC yn eu defnyddio i sicrhau ei safonau academaidd. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn cadarnhau bod y safonau academaidd yn briodol.

49 Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y gyfran o raddau anrhydedd 'da' a ddyfarnwyd o flwyddyn academaidd 2019-20 ymlaen: enillodd 67% o'r myfyrwyr raddau dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth uwch yn 2019-20, a 68% yn 2020-21, o'i gymharu â 56% yn 2018-19. Yn arbennig, cynyddodd y canran o raddau dosbarth cyntaf yn sylweddol dros y cyfnod hwn, o 18% yn 2018-19, i 31% yn 2019-20 a 35% yn 2020-21. Mewn trafodaeth â'r tîm adolygu, dywedodd Grŵp NPTC ei bod hi'n debygol bod mabwysiadu polisiau a ddiwygiwyd gan ei sefydliadau partner mewn ymateb i'r pandemig - er enghraifft y defnydd a wneir o bolisiau 'dim anfantais' - wedi cael effaith yn y cyswllt hwn. Ar yr un pryd, nodwyd y gallai'r ffaith fod maint poblogaeth ei fyfyrwyr addysg uwch yn weddol fach gyfyngu ar arwyddocâd yr ystadegau o ran canfod tueddiadau.

50 Gan bwysleisio'r ffaith fod Grŵp NPTC yn darparu ei holl ddarpariaeth addysg uwch mewn cydweithrediad â'i sefydliadau partner, sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am y safonau academaidd, fel y cyrff dyfarnu, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y trefniadau a wnaed gan Grŵp NPTC i sicrhau ei safonau academaidd yn effeithiol, ac yn gyson â'r meincnodau perthnasol a'r fframweithiau dyfarniadau perthnasol ar lefel genedlaethol.

2.8 Effeithiolrwydd dull y darparwr o'i werthuso ei hun, sy'n cynnwys defnyddio data'n effeithiol i hysbysu'r prosesau gwneud penderfyniadau

51 Yn y dogfennau a ddarparwyd cyn yr ymweliad, ac yn ystod yr ymweliad ei hun, rhoddwyd tystiolaeth gan Grŵp NPTC i ddangos pa mor effeithiol yw ei ddull o'i werthuso ei hun a defnyddio data. Er gwaethaf y problemau yn ymwneud â gwahanu data sydd wedi eu nodi yn adran 2.5, mae ei ddull o'i werthuso ei hun yn amlwg gadarn, ac yn cynnwys dull amlhaenog

- o werthuso ar lefel y modiwlau i lefelau'r rhaglenni a'r ysgolion - sy'n arwain at adroddiadau rheolaidd i'r Grŵp RhGAAU, y Grŵp Monitro Safonau a Pherfformiad, yr Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd Llywodraethwyr, yr Adroddiad Addysg Uwch blynyddol, yr Adroddiad Sicrhau Ansawdd i CCAUC ac adroddiad blynyddol am ganlyniadau'r ACF. Roedd rhagor o esiamplau yn y Dadansoddiad Hunanwerthuso i ddangos y defnydd effeithiol a wneir o brosesau hunanwerthuso, er enghraifft i wella cadwraeth ac wrth fonitro'n flynyddol.

52 Yn y cyfarfodydd yn ystod yr ymweliad adolygu, tynnwyd sylw at y ffaith bod y sefydliadau partner a'r myfyrwyr hefyd yn cyfranogi ac yn cyfrannu i brosesau hunanwerthuso Grŵp NPTC. Adroddiadau blynyddol oedd y prif fecanweithiau a ddefnyddiwyd gan Grŵp NPTC i'w werthuso ei hun ac mae'r rhain wedi eu hysbysu gan ddata er mwyn parhau i sicrhau cynnydd yn systemau a phrosesau Grŵp NPTC a phrofiad ei fyfyrwyr. Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam yn defnyddio adroddiadau monitro blynyddol ar gyfer pob un o'u rhaglenni, ac maent yn gofyn bod adroddiad trosolwg o'r bartneriaeth yn cael ei gwblhau bob blwyddyn. Adolygir anghenion cymorth y myfyrwyr yn flynyddol ym mhob un o gampysau ac ysgolion academiaidd Grŵp NPTC, ac ar lefel yr anghenion a nodir neu a ddatgelir, felly defnyddir dull o ddyrannu adnoddau ar sail anghenion. Mae cyflwyno Llysgenhadon Addysg Uwch a swydd sabothol gyda thâl i Swyddog Addysg Uwch Undeb y Myfyrwyr wedi helpu i sicrhau bod clust i lais y myfyrwyr a'i fod yn cyfrannu at y prosesau hunanwerthuso.

3 Darpariaeth gydweithredol

3.1 Nodweddion allweddol dull strategol y darparwr (yn cynnwys gweithgareddau cydweithredol, dysgu ar-lein a dysgu o bell a ddarperir gydag eraill, a dysgu seiliedig ar waith)

53 Mae Grŵp NPTC yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam, sy'n cyfrannu 30%, 28% a 5%, yn y drefn honno, o'r rhaglenni y mae'n eu darparu, ac mae'r 37% sy'n weddill yn cynrychioli rhaglenni Pearson. Mae Grŵp NPTC wedi cymryd camau pwrpasol i osgoi dibynnu'n ormodol ar un bartneriaeth yn unig er mwyn lleihau'r risg y gallai prifysgolion partner newid eu cyfeiriad strategol mewn perthynas â'u blaenoriaethau o ran darpariaeth gydweithredol.

54 Mae pob un o'r rhestrau gwirio o gyfrifoldebau'n nodi bod Grŵp NPTC yn gyfrifol am y prosesau o sicrhau ansawdd adnoddau dysgu, a darparwyr lleoliadau gwaith pan gânt eu defnyddio ar raglenni.

55 Mae dysgu seiliedig ar waith yn elfen o nifer o raglenni Grŵp NPTC, lle mae gofynion y FHEQ/FfCChC a disgwyliadau'r partner dyfarnu'n cael eu bodloni ar y cam cymeradwyo rhaglenni ac yn cael eu monitro drwy drefnau dysgu seiliedig ar waith, prosesau monitro blynyddol/parhaus a dulliau casglu adborth gan fyfyrwyr. Mae Grŵp NPTC wedi mapio ei bolisiâu a'i arferion yn ymwneud â lleoliadau gwaith yn erbyn Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU. Mae manylion pob rhaglen berthnasol ar gael, sef y rhaglenni TBA/TBAR, y Prentisiaethau Gradd a'r modiwl Arferion Gofal. Mae'r cyfrifoldeb cyffredinol gan y Pennaeth Cynorthwyol (Addysg Uwch), er mai Cydlynwyr Addysg Uwch yw'r prif arweinwyr ar lefel y rhaglenni sy'n cysylltu â chyflogwyr i ganfod lleoliadau gwaith ac sy'n mentora ac yn arsylwi'r myfyrwyr yn y gweithle. Mae'r Cynllun Strategol ar gyfer 2019-23 yn cynnwys Strategaeth Ymgysylltu â Chyflogwyr manwl sy'n pwysleisio'r pwysigrwydd y mae'r Grŵp NPTC yn ei roi i waith gyda chyflogwyr i ddarparu rhaglenni priodol. Yn ogystal, mae'r fersiwn drafft o'r Llawlyfr Sicrhau Ansawdd yn cynnwys adran ar ddysgu seiliedig ar waith a fydd yn darparu ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol ychwanegol i'r staff.

56 Clywodd y tîm adolygu bod gan y rhaglenni sydd â ffocws galwedigaethol lleoliadau gwaith wrth eu craidd, a'u bod yn cysylltu theori ag ymarfer. Wrth ddylunio a chynllunio'r rhaglenni, cynhwyswyd y safonau proffesiynol a'r codau ymarfer yn y gwaith. Asesir y medrau a ddefnyddiwyd yn ystod y lleoliad gwaith, gyda dau arfarniad yn ystod y flwyddyn a defnyddio dyddiaduron adfyfuriol. Mae pob myfyriwr sy'n astudio ar raglen Gofal yn gwneud modiwl Arferion Gofal o 30 credyd a 210 awr sy'n cynnwys lleoliad gwaith. Mae llawer ohonynt yn gweithio yn y sector yn barod ac, os nad ydynt, maen nhw'n dod o hyd i lleoliadau gwaith gwirfoddol eu hunain, y mae'r Grŵp NPTC yn eu cefnogi. Mae Grŵp NPTC yn gyfrifol am wneud gwiriadau diwydrwydd dyladwy ac iechyd a diogelwch ar gyfer pob lleoliad gwaith. Hefyd, clywodd y tîm fod y myfyrwyr sy'n astudio ar y rhaglenni gradd mewn Rheoli Busnes a Thechnoleg Gwybodaeth yn gwneud prosiectau byw yn ystod eu lleoliadau gwaith - er enghraifft, helpu i ddatblygu gwefan y cyflogwr - a thrwy hynny, eu bod yn dangos pa mor barod ydynt i fynd i fyd gwaith.

57 Mae'r gefnogaeth a roddir yn ystod lleoliadau gwaith yn canolbwyntio i raddau mawr ar y cymorth academaidd sydd ei angen i sicrhau bod y myfyrwyr yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y modiwl penodol. Sefydli'r llinellau a sianelau cyfathrebu clir rhwng y myfyrwyr, Grŵp NPTC a'r lleoliad gwaith. Mae arsylwr lleoliad gwaith yn cadw llygad ac yn sicrhau bod cyfathrebu agored a rhwydd yn digwydd. Mae'r mentoriaid/goruchwylwyr lleoliad gwaith perthnasol yn derbyn dogfennaeth gan Grŵp NPTC, ac mae unrhyw broblemau'n cael eu trin gan arweinydd neu arsylwr y lleoliad gwaith. Clywodd y tîm adolygu bod y myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r profiadau a'r mentora cysylltiedig a gawsent yn ystod eu lleoliadau gwaith yn fawr iawn. Roedd holiadur Adolygiad Gwella Ansawdd a gwblhawyd yn 2021 yn dangos bod 82% o'i fyfyrwyr oedd yn gwneud lleoliadau gwaith yn fodlon gyda'r gefnogaeth a roddwyd iddynt.

58 Clywodd y tîm adolygu bod lleoliadau gwaith wedi bod yn her i'r rhaglenni twristiaeth a lletygarwch. Mae'r lleoliad gwaith wedi ei gysylltu â modiwl Gweithrediadau Teithio Rhyngwladol sy'n gofyn i'r myfyrwyr weithio fel tîm i wneud a chwblhau'r modiwl hwn er mwyn cyflawni'r elfen lleoliad gwaith o'r cwrs. Mae ail-ddilysu'n digwydd, gan gyfeirio at ganllawiau QAA am leoliadau gwaith, i greu dull mwy hyblyg sy'n adeiladu ar y profiadau cyfredol.

59 Ers yr adolygiad diwethaf, cymeradwywyd rhaglen Brentisiaeth Gradd BEng (Anrh) mewn Dylunio Peirianeg Ddiwydiannol (Mecanyddol) sydd i gael ei darparu ar gampws Castell-nedd.

3.2 Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol ac unrhyw gynlluniau i'w newid

60 Mae Grŵp NPTC yn rhan o ddarpariaeth gydweithredol ei sefydliadau addysg uwch partner, yn hytrach na dim ond partner arweiniol y brifysgol berthnasol, ac mae'n darparu rhaglenni ar etholfraint a rhaglenni a ddilysir. Yn ystod yr ymweliad, clywodd y tîm adolygu nad oes unrhyw gynlluniau i wneud newid mawr, ond bod Grŵp NPTC yn rhan o bartneriaeth newydd drwy Gymru gyfan sy'n ceisio datblygu 'dull partneriaeth gymdeithasol' o ddarparu addysg uwch yn y dyfodol, gan adeiladu ar y model etholfreinio a dilysu cyfredol.

3.3 Effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academiaidd a gwella a chyfoethogi profiad dysgu'r myfyrwyr

61 Mae Grŵp NPTC yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau ei sefydliadau addysg uwch partner a Pearson, er mwyn sicrhau'r safonau academiaidd, ond mae'r sefydliadau dyfarnu'n cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol am y safonau academiaidd.

62 Mae pedwar Arweinydd Addysg Uwch cyswllt ar waith, un ar gyfer pob un o'i dri sefydliad addysg uwch partner a Pearson, sy'n cefnogi'r Pennaeth Cynorthwyol (Addysg Uwch) a'r Rheolwr Addysg Uwch yn eu gwaith o sicrhau a gwella ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch.

63 Mae gan Grŵp NPTC hanes o lwyddiant yn adolygiadau Estyn ac adroddiadau goruchwyllo ei phrifysgolion partner, ac yn ei adroddiadau blynyddol ei hun i CCAUC. Llunnir prosesau Grŵp NPTC i ateb gofynion ei bartneriaid dyfamu gan hefyd gadw lefel o oruchwyliaeth a chymeradwyaeth o fewn systemau Grŵp NPTC, er enghraifft cymeradwyo rhaglenni newydd. Mae'r ehangiad yn y tîm addysg uwch yn sicrhau bod y strwythur adrodd yn drwyadl ar wahand lefelau'r sefydliad, ac mae'r Bwrdd yn cadw'r cyfrifoldeb pennaf am hyn. Mae'r Polisi Rheoli a Sicrhau Ansawdd yn disgrifio egwyddorion a gweithdrefnau i weithredu system sicrhau a rheoli ansawdd gynhwysfawr ar gyfer pob agwedd o weithrediadau Grŵp NPTC. Mae'r cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd addysg uwch yn gorwedd gyda'r Grŵp Rheoli a Gwella Ansawdd Addysg Uwch, y Grŵp Gweithredu Addysg Uwch, yr Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd. Mae'r adroddiadau i'r gwahanol grwpiau a welwyd gan y tîm adolygu'n dangos bod dull trwyadl ac effeithiol o sicrhau ansawdd ar waith, gan gynnwys rheoli'r ddarpariaeth gydweithredol. Mae'r prifysgolion partner yn monitro eu rhaglenni'n flynyddol a ddarperir yn Grŵp NPTC, ac mae eu hadroddiadau'n dangos arferion da yn y ffordd y mae Grŵp NPTC yn rheoli'r rhaglenni perthnasol.

64 Mae'r adroddiadau arholwyr allanol a welwyd gan y tîm adolygu'n cadarnhau bod y prosesau academiaidd a'r trefnau monitro o safon dda.

65 Bydd y Llawlyfr Sicrhau Ansawdd, sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd, yn ddogfen ganolog ddefnyddiol sy'n ymdrin â phynciau megis sicrhau a gwella ansawdd, derbyn myfyrwyr, asesu myfyrwyr, trefnau cwyno ac apelio, a dysgu seiliedig ar waith, ac sy'n cynnwys gwybodaeth fapio yn erbyn Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU.

QAA2705 - R13108 - Sep 22

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2022
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk